

15/09/21

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Mae Iechyd Cyhoeddus Bro Abertawe wedi penderfynu bod y lefel risg mewn ysgolion yn Abertawe yn cyfateb i lefel 'Uchel' ar y 'Fframwaith penderfyniadau rheoli heintiau Cofid yn lleol i ysgolion' (gweler yma: [Fframwaith penderfyniadau rheoli heintiau COVID-19 lleol ar gyfer ysgolion o hydref 2021 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)). Golyga hyn bod angen i ni weithredu cyfres o fesuriadau penodol yn unol â'r lefel risg uchel.

Maent yn cynnwys cyfres o fesurau craidd:

1. Sicrhau nad yw dysgwyr yn mynychu'r ysgol o dan unrhyw amgylchiadau os ydynt:
 - ☐ yn teimlo'n sâl gydag unrhyw un o symptomau COVID-19 (peswch parhaus tymheredd uchel; colli blas; colli arogl)
 - ☐ wedi profi'n gadarnhaol ar gyfer COVID-19
 - ☐ bod gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu (POD) wedi cysylltu gyda nhw a'u cyfarwyddo i hunan ynysu
2. Golchi dwylo'n drylwyr neu ddiheintio dwylo yn amlach nag arfer.
3. Cynnal hylendid anadlol da drwy hyrwyddo'r dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa, golcha dy ddwylo'.
4. Sicrhau bod pob ystafell a choridor yn cael ei awyru'n addas.
5. Glanhau'n amlach, gan gynnwys glanhau arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml yn rheolaidd.

Mae yna gyfres o fesurau ychwanegol yn y fframwaith ar gyfer lefel risg uchel sy'n cynnwys:

- ☐ Osgoi cynnal digwyddiadau ar gyfer grwpiau mawr, fel gwasanaethau ysgol (grwpiau blwyddyn gyfan mewn Ysgol Uwchradd)
- ☐ Defnyddio systemau unffordd o fewn adeiladau'r ysgol
- ☐ Cynlluniau eistedd cyson
- ☐ Defnyddio'r awyr agored lle y bo hynny'n bosibl
- ☐ Arwyddion ar y llawr
- ☐ Rhoi mesurau cadw pellter corfforol a chynlluniau eistedd ar waith mewn ystafelloedd dosbarth. Mae hyn yn cynnwys desgiau sy'n wynebu'r blaen yn dibynnu ar faint yr ystafell ac asesiad risg.
- ☐ Dylai dysgwyr oed uwchradd wisgo gorchuddion wyneb wrth symud o amgylch ardaloedd cymunedol dan do y tu allan i'r ystafell ddosbarth, fel coridorau, lle nad oes modd cadw pellter corfforol. Dylid parhau i wisgo gorchuddion wyneb ar gludiant i'r ysgol.
- ☐ Dylai staff ac ymwelwyr wisgo gorchuddion wyneb wrth symud o amgylch ardaloedd cymunedol dan do y tu allan i'r ystafell ddosbarth, fel coridorau, lle nad oes modd cadw pellter corfforol.

Fel y gwyddoch, fe wnaethom benderfyniad, wrth lunio ein hasesiad risg cyn dychwelyd ym mis Medi, i barhau gyda'r holl fesurau uchod er mwyn ceisio lleihau'r posibilid i'r firws ledaenu o fewn yr ysgol. Yn ogystal â'r uchod, mae trefniadau dyddiol yn eu lle i leoli grwpiau blwyddyn o ddisgyblion mewn ardaloedd gwahanol o'r ysgol ar gyfer amserau anffurfiol egwyl a chinio.

Mae cynnig **profion llif unffordd** ddwywaith yr wythnos i staff a dysgwyr uwchradd er mwyn helpu i nodi ac ynysu achosion asymptomatig cyn gynted â phosibl hefyd yn un o'r mesurau newydd.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWR
MEWN POBL**

Aur



Byddwn yn dosbarthu rhai i ddisgyblion blynyddoedd 8-13eg wnaeth lenwi ffurflen ganiatad digidol llynedd. Mae profion hefyd ar gael yn lleol yn y gymuned – gweler yma [Cael profion llif unffordd COVID-19 cyflym os nad oes gennych symptomau | LLYW.CYMRU](#) am fwy o fanylion.

Cofiwch, ar ôl i'r prawf gael ei gynnal, rhaid cofnodi'r canlyniad ar-lein ar www.gov.uk/report-covid19-result. Rhaid hefyd cysylltu gyda'r ysgol yn syth os yw'r prawf yn bositif neu yn annilys drwy rhannu'r wybodaeth isod ar yr e-bost yma: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net

Enw'r Disgybl;
Blwyddyn a dosbarth y disgybl;
Rhif ffôn cyswllt;
Canlyniad y prawf;
Enw cyswllt riant / gwracheidwad.

Os na wnaethoch lenwi'r ffurflen ganiatâd llynedd a bellach yn dymuno bod eich plentyn yn defnyddio'r profion, plis llenwch [y ffurflen ganiatâd yma](#).

RHIENI BLWYDDYN 7 – PROFION LLIF UNFFURF:

Mae'r [llythyr yma](#) yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer pwrpas y profion, cyfarwyddiadau sut i'w gweinyddu a datganiad preifatrwydd. Defnyddiwch y [ffurflen ganiatâd yma](#) er mwyn rhoi caniatâd i'ch plentyn ddefnyddio'r profion. Bydd angen gwneud hyn **erbyn ddydd Mawrth 21/09/21**. Byddwn yn dosbarthu profion i ddisgyblion blwyddyn 7 ddydd lau nesaf. Mae profion hefyd ar gael yn lleol yn y gymuned – gweler yma [Cael profion llif unffordd COVID-19 cyflym os nad oes gennych symptomau | LLYW.CYMRU](#) am fwy o fanylion. Cofiwch, ar ôl i'r prawf gael ei gynnal, dilynwch y cyfarwyddiadau uchod.

Er hyn, mae'n amlwg gyda'r cynnydd mewn achosion yn Abertawe, ei bod hi'n allweddol bwysig ein bod ni i gyd yn wylidwrus iawn o'n gweithredoedd er mwyn diogelu pawb sydd yn rhan o gymuned yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys osgoi ardaloedd gyda thorffeydd mawr o bobl gan gymdeithasu y tu allan ble'n bosib.

Gweler y llythyr yma: [Llythyr i rieni a gwarcheidiaid TERFYNOL \(bryntawe.swansea.sch.uk\)](#) gan Gyfarwyddwr Addysg Abertawe yn atgyfnerthu'r neges uchod i bob rhiant ar draws y ddinas.

Diolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth lawn gyda'r materion iechyd a diogelwch pwysig yma. Os oes unrhyw gwestiwn pellach gennych, yna cysylltwch gyda ni i drafod?

Yn ddiffuant,





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL

Aur



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales